**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd B Stephens |
| Y Cynghorydd M Ashford | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd J Cook | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd S J Davies | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd A Dennis | Y Cynghorydd E L Dunning |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd L Ellis |
| Y Cynghorydd S Emanuel | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd A Fox | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd B Harris | Y Cynghorydd S Hickman |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd W Hughes | Y Cynghorydd K Johnson |
| Y Cynghorydd G O Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd C Lisles |
| Y Cynghorydd M Maohoub | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd N H Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd C Preedy | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd L A Tomkinson | Y Cynghorydd S Trask |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd J Turner |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd M Webber |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd D Wood |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr B Davies, Dirprwy Brif Weithredwr ac Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

Mr M Jones, Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd V Dunn |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd A J Ellis |
| Y Cynghorydd S.Evans | Y Cynghorydd H Gronow |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd D Parkin |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd K Webb |
| Y Cynghorydd G E Williams | |

## 66 Croeso

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i gyfarfod ar-lein y Cyngor.

## 67 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda a chafodd datganiadau (viii a ix) eu gwneud ynglŷn ag eitem 6 ar yr agenda yn ddiweddarach yn y cyfarfod (Cofnod 75):

**Eitem 9 ar yr Agenda – Rhybudd o Gynnig (Menywod yn Erbyn Anghyfiawnder Pensiwn y Wladwriaeth)**

(i) Y Cynghorydd J Barton – “Rwy’n cael fy effeithio gan y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a anwyd yn y 1950au, fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig”.

(ii) Y Cynghorydd J Brencher – “Rwy’n cael fy effeithio gan y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a anwyd yn y 1950au, fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig”.

(iii) Y Cynghorydd R Davis – “Rwy’n cael fy effeithio gan y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a anwyd yn y 1950au, fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig”.

(iv) Y Cynghorydd S Rees – “Rwy’n cael fy effeithio gan y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a anwyd yn y 1950au, fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig”.

(v) Y Cynghorydd J Smith – “Rwy’n cael fy effeithio gan y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a anwyd yn y 1950au, fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig”.

(vi) Y Cynghorydd W Treeby – “Rwy’n cael fy effeithio gan y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a anwyd yn y 1950au, fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig”.

(vii) Y Cynghorydd M Webber – “Rwy’n cael fy effeithio gan y newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a anwyd yn y 1950au, fel y nodir yn y Rhybudd o Gynnig”.

(viii) Y Cynghorydd J Brencher – “Mae fy mab yn gweithio i Trafnidiaeth Cymru”

(ix) Y Cynghorydd K Johnson – “Rwy’n gweithio i Trafnidiaeth Cymru”

**68 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023 yn rhai cywir yn amodol ar nodi bod cyfenw'r Cynghorydd G Hopkins wedi'i gamsillafu.

**69 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Talodd y Cynghorydd R Lewis deyrnged i Richard Jones, a fu farw'n ddiweddar. Roedd Richard yn gymeriad adnabyddus yng Nghwm Cynon, yn eiriolwr angerddol dros hawliau pobl anabl ac yn gweithio i hyrwyddo hygyrchedd. Bu'n Gadeirydd Amgueddfa Cwm Cynon ac ACT (Accessible Caring Transport), yn ogystal â sefydlu'i elusen hygyrchedd ei hun. Roedd e'n Gynghorydd Cymuned ar Gyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn. Roedd e bob amser yn awyddus i helpu eraill ac yn adnabyddus am ei synnwyr digrifwch. Cafodd Richard ei gefnogi gan ei deulu drwy gydol ei oes, a daeth y Cynghorydd Lewis i ben drwy ddweud y bydd colled ar ôl Richard Jones.

- Roedd y Cynghorydd K Morgan hefyd yn dymuno talu teyrnged i Richard Jones, a oedd yn hyrwyddwr llawer o achosion eraill, gyda'r rhan fwyaf o'r rheiny'n canolbwyntio ar sicrhau chwarae teg i bawb. Gweithiodd y Cynghorydd Morgan ochr yn ochr â Richard yn ei rôl gyda Cymru Hygyrch, ac yn ystod y gwaith hwn daeth yn ymwybodol o ba mor aml yr oedd Richard yn wynebu rhwystrau yn ei fywyd bob dydd. Gorffennodd y Cynghorydd Morgan drwy ddweud mai dyma yw ein hetifeddiaeth gan Richard, y cyfle i ni weld y rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu a chael gwared arnyn nhw. Roedd y Cynghorydd Morgan yn dymuno estyn ei chydymdeimlad i deulu Richard.

- Talodd y Cynghorydd W Hughes deyrnged i aelod hirsefydlog o'r blaid Lafur a Chyn-gynghorydd Trealaw, Bill Murphy, a fu farw ar 2 Tachwedd 2023. Roedd e'n aelod uchel ei barch o Gymuned Trealaw. Cafodd ei ethol yn Gynghorydd ar ward Trealaw ym 1983, a bu'n Aelod o'r Cyngor tan 1999. Yn ystod y cyfnod yma, roedd yn Ddirprwy Arweinydd ac Arweinydd ar y Grŵp Llafur ac ar Gyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda. Fe hefyd oedd Arweinydd cyntaf Cyngor RhCT. Bu'n eistedd ar lawer o bwyllgorau a chyrff llywodraethu ysgolion. Roedd y Cynghorydd Hughes yn dymuno estyn ei gydymdeimlad i wraig Bill, Barbara, a'i deulu.

- Talodd y Cynghorydd G Caple deyrnged i gyn AS y Rhondda, Allan Rogers, a fu farw ddoe yn 91 oed. Daeth yn AS y Rhondda ym 1983 a bu yn ei swydd tan 2001. Roedd ei ymrwymiad i’w gymunedau, gan

gynnwys ei gefnogaeth barhaus i’r glöwyr, heb ei ail. Soniodd y Cynghorydd Caple am ei fuddugoliaethau etholiadol, gan orffen gyda pherfformiad trawiadol o'r Faner Goch. Treuliodd oes ym myd gwleidyddiaeth, yn Gynghorydd, AS ac yn aelod o Senedd Ewrop. Roedd bob amser yn annog eraill i gefnogi achos y Llywodraeth Lafur trwy wleidyddiaeth. Bu'n gweithio fel daearegwr mwyngloddio, swydd a aeth ag ef ledled y byd. Estynnodd y Cynghorydd Caple ei gydymdeimlad â theulu Allan.

Arweiniodd y Llywydd y Cyngor mewn munud o dawelwch er cof am y tri phreswylydd crybwylledig a fu farw yn ddiweddar.

- Cyhoeddodd y Cynghorydd J Brencher fod ymweliad diwylliannol wedi’i gynnal gan grŵp o ymwelwyr, gan gynnwys Brenin Buganda, yn ddiweddar. Roedd hwn yn gyfle i'r ymwelwyr ddod i’r fwrdeistref sirol a diolch i drigolion RhCT am eu gwaith o ran mynd i’r afael â thlodi a lleihau cyfraddau marwolaethau drwy PONT. Diolchodd y Cynghorydd Brencher i Faer Rhondda Cynon Taf a phawb a fu'n rhan o drefnu'r ymweliad.

**70 Datganiadau**

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan OBE, ddatganiad mewn perthynas â chyllideb y Cyngor a chanlyniad siomedig Datganiad yr Hydref. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael £305m yn ychwanegol ond hyd yn oed gyda'r cyllid ychwanegol, mae cynghorau yn wynebu blwyddyn anodd iawn i ddod. Mewn termau real, mae hyn yn debygol o fod yn £41m yn unig, sy'n briodoli i newidiadau o ran Ardrethi Busnes a gyhoeddodd y Canghellor yn flaenorol, a thua £4 miliwn wedi'i neilltuo i fynd i'r afael â thyllau yn y ffordd. Mynegodd yr Arweinydd ei siom enbyd yn y canlyniad, er gwaethaf pryderon a gafodd eu dwyn i sylw Llywodraeth San Steffan ynghylch y pwysau ar Ysgolion, Gofal Cymdeithasol a'r GIG.

Dywedodd yr Arweinydd bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2024-25 yn cynyddu o 3.1% ond fod y Cyngor yn debygol o weld cynnydd llai na 3% oherwydd poblogaeth y fwrdeistref sirol a newidiadau yn y fformiwla, a fydd yn rhagolwg anodd iawn. Ychwanegodd fod Swyddogion yn gweithio'n galed yn y cefndir i nodi lle mae modd gwneud arbedion.

Dywedodd yr Arweinydd fod chwech ar hugain o awdurdodau lleol yn Lloegr yn wynebu hysbysiad 114 yn ystod y 12 mis nesaf, sy'n golygu y byddan nhw'n cael eu gorfodi i ddatgan methdaliad ariannol heb unrhyw arian wrth gefn/arbedion, a fyddai'n golygu bod dim modd iddyn nhw ddarparu gwasanaethau statudol. Dywedodd yr Arweinydd y byddai darparu cyllideb gytbwys ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dasg hynod heriol ac ategodd ei siom gyda chanlyniad datganiad yr Hydref.

******************************************************************************************

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd M Webber, ei bod hi wedi cyfarfod â Citizens Cymru/Wales a Citizens UK yn Eglwys y Santes Catrin, Pontypridd, ar 10 Tachwedd i ddathlu achrediad y Cyngor yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol. Roedd hi wedi gwneud hyn ar ran yr Arweinydd. Cafodd tlws

ei gyflwyno i'r Cyngor i ddathlu'r gamp. Roedd y Dirprwy Arweinydd yn dymuno diolch i Citizens Cymru UK am y gydnabyddiaeth honno.

Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd bod y Cyngor yn dal ati i gydnabod mai'r staff yw ei ased gorau, ac roedd hi'n falch o'r cyfle i gwrdd â'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn gynharach yn y flwyddyn, gyda'r Arweinydd, i dderbyn achrediad fel cyflogwr Cyflog Byw. I gloi, dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod Cyngor RhCT yn gosod esiampl dda i awdurdodau lleol yng Nghymru, yn rhinwedd ei rôl yn ail awdurdod lleol mwyaf Cymru.

*******************************************************************************************

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris, ddatganiad mewn perthynas â'r ffaith bod y Cyngor wedi derbyn gwobr fawreddog Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Cenedlaethol (gwobr Efydd SPF) ar ran Partneriaeth Bwyd RhCT. Mae'n cydnabod gwaith rhagorol Partneriaeth Bwyd RhCT wrth hyrwyddo arferion bwyd cynaliadwy o fewn y cymunedau. Mae Carfan Datblygu Cymuned y Cyngor, y Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy a'i bartneriaid wedi ymrwymo i hyrwyddo bwydydd cynaliadwy ac iach, ac mae eu gwaith wedi cyfrannu'n helaeth at ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol sylweddol megis tlodi bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â diet a cholli busnesau bwyd annibynnol.

Roedd y Cynghorydd B Harris am estyn ei longyfarchiadau i'r garfan a'r bartneriaeth am gael ei gydnabod gan y wobr fawreddog yma, ac roedd hefyd yn dymuno diolch iddyn nhw am wneud RhCT yn un o ddim ond tair ardal awdurdod lleol yng Nghymru i dderbyn y wobr hon ers ei sefydlu yn 2015.

**71 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol N. H. Morgan i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*"A oes modd i'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'i waith i uwchraddio a gwella draeniad ar ei rwydwaith priffyrdd?"*

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi caffael gwasanaeth glanhau foltiau arbenigol 5 mlynedd a chontract teledu cylch cyfyng gyda darparwr allanol sydd ar hyn o bryd yn ei drydedd flwyddyn. Mae nifer o asedau carthffosydd dŵr wyneb wedi'u glanhau a'u harolygu hyd yma, gyda 15km wedi'i drin hyd yma eleni.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor hefyd ei bedwar gwacwr cwteri a loriau jetio ei hun sy'n gweithio bob dydd i lanhau miloedd o gylïau bob mis, yn ogystal â nodi diffygion sydd wedyn yn cael eu hatgyweirio i helpu i ddiogelu'r rhwydwaith.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet wedi cytuno'n ddiweddar ar fuddsoddiad o £200,000 ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd parhaus. Mae hyn yn rhan o'r buddsoddiad untro ehangach o £7.73 miliwn ar gyfer meysydd blaenoriaeth y Cyngor, a gytunwyd gan y Cabinet yn gynharach eleni. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y buddsoddiad o £1 miliwn y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn gan Gronfa

Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru gyfer 2023/24. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi sicrhau dros £10 miliwn gan y Gronfa Ffyrdd Cydnerth ers Storm Dennis, a hynny er mwyn edrych ar y priffyrdd hynny sy'n dueddol o fod yn destun llifogydd.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd fod llawer o waith eisoes yn mynd rhagddo, ond mae modd gwneud rhagor, a diolchodd i'r Aelodau Etholedig sy'n parhau i dynnu sylw at broblemau yn eu wardiau nhw.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. O. Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

*“Rydyn ni wedi clywed yn ystod y misoedd diwethaf bod effeithiau cyfunol Brexit a’r rhyfel yn Wcráin yn cael effaith sylweddol ar ein diwydiant adeiladu. Beth mae hyn yn ei olygu i’r Cyngor a sut allwn ni liniaru’r effeithiau yma?”*

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd y Cynghorydd A Morgan y bu cynnydd mewn costau adeiladu sy'n ymwneud â chyflenwad deunyddiau. Mae hyn yn rhannol yn ymwneud â Brexit, y rhyfel yn Wcráin a chyfradd chwyddiant uchel yn y DU, sydd i gyd yn effeithio ar gostau adeiladu.

Eglurodd yr Arweinydd, o ran Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, fod gan y Cyngor brofiad o gynllunio a chyflawni prosiectau sy'n bodloni amodau llym o ran ansawdd a phris. Ychwanegodd fod prisiau'n cael eu cytuno ymlaen llaw ar gyfer prosiectau adeiladu fel Ysgolion neu gyfleusterau Gofal Ychwanegol, a bod dim modd newid y pris yma unwaith i'r contract gael ei ddyfarnu.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at anawsterau o fewn y farchnad lafur, ac effaith Brexit, sy'n effeithio ar faterion recriwtio, yn enwedig mewn meysydd fel lletygarwch a ffermio, lle mae ffermwyr yn cael trafferth recriwtio gweithwyr i gasglu cnydau. Soniodd yr Arweinydd am yr anhawster o ran recriwtio'n lleol, gan ddweud bod rhaid hysbysebu swyddi sawl gwaith weithiau.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn gweithio'n dda o ran contractau ond y bydd yn parhau i fonitro'r farchnad a phennu cyllidebau adeiladu realistig yn y dyfodol, gan fanteisio ar wybodaeth am y farchnad ar y pryd.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**3. Cyhoeddodd y Llywydd fod ymddiheuriad am absenoldeb wedi'i gyflwyno gan y Cynghorydd S Powderhill, a chadarnhaodd na fyddai cwestiwn 3 yn cael ei ofyn i'r Aelod o'r Cabinet.**

**4. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

*“A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad am gyflwyno terfynau cyflymder 20mya diofyn Llywodraeth Cymru ledled Cymru a Rhondda Cynon Taf?”*

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Darparodd yr Arweinydd yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â chyflwyno terfynau cyflymder 20mya diofyn Llywodraeth Cymru yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cyngor wedi cael gwared ar tua 3,140 o arwyddion ac wedi codi 1,710 o arwyddion newydd ar y rhwydwaith priffyrdd i baratoi ar gyfer cyflwyno'r terfyn 20mya diofyn. Yn ogystal, roedd cyfle i dynnu 1,974 o arwyddion wedi'u goleuo i lawr, a gosod fersiynau heb olau yn eu lle, gan arbed costau ynni a chynnal a chadw.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod wyth deg pedwar o eithriadau terfyn cyflymder 30mya yn RhCT ar hyn o bryd, gyda 18 wedi'u lleoli yng Nghwm Rhondda, 16 yng Nghwm Cynon a 50 ar draws ardal Taf-elái. Ychwanegodd fod y contractwr allanol i fod i gwblhau'r gwaith erbyn 24 Tachwedd ond mae'r contractwr wedi gofyn am estyniad i gwblhau elfennau o'r wyneb coch a'r arwyddion 'eilaidd' - Mae swyddogion yn adolygu'r cais yma ar hyn o bryd ac yn obeithiol y bydd yr amser hwn yn cael ei gwtogi yn sgil trafodaethau pellach.

Dywedodd yr Arweinydd, tra bod Swyddogion yn ymateb i unrhyw wallau clir ac amlwg ar yr arwyddion cyn gynted â phosibl, mae unrhyw geisiadau i adolygu terfynau cyflymder yn cael eu cofnodi, a byddan nhw'n destun adolygiad posibl yn y dyfodol. Ychwanegodd y dylai'r Cyngor fod mewn sefyllfa i gadarnhau bod yr holl arwyddion wedi'u diweddaru erbyn cyfnod y Nadolig.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi canllawiau diwygiedig mewn perthynas â phennu terfynau cyflymder lleol yng Nghymru yn hydref 2024. Bydd hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer unrhyw adolygiad o derfynau cyflymder yn RhCT.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

*"A oes modd i'r Arweinydd wneud datganiad ar wasanaethau bws yn Rhondda Cynon Taf ac amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran rhoi cymorth i ddarparwyr?"*

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod Covid-19 wedi effeithio ar hyfywedd masnachol gwasanaethau bysiau, a heb ymyrraeth Llywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau, byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi dod i ben dros y 3 blynedd diwethaf. Ychwanegodd, er bod y diwydiant wedi dangos rhywfaint o adferiad o effaith y pandemig, ei fod wedi wynebu heriau ychwanegol oherwydd bod mwy o drigolion yn gweithio gartref, neu'n siopa bwyd ar-lein.

Dywedodd yr Arweinydd, o ran y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau, a oedd ar waith am dair blynedd, fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau o ran y cyllid (gyda deg cyngor ar yr un ôl troed â'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, a chyda RhCT yn rhan o ôl troed y De-ddwyrain ar gyfer y deg awdurdod lleol sydd i gyd yn cydweithio â'r diwydiant bysiau) i symud tuag at fecanwaith ariannu mwy cynaliadwy a fydd yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael ac yn lleihau dyblygu gwasanaethau o ddechrau blwyddyn ariannol 2024/25. Cadarnhaodd yr Arweinydd yr amcangyfrifir y bydd cyfran yr arian ychwanegol sydd ar gael i gefnogi'r diwydiant bysiau gan Lywodraeth Cymru ar

gyfer y flwyddyn nesaf tua £46 miliwn.

Fel gyda phob Cyngor yng Nghymru, wrth baratoi ar gyfer y mecanwaith ariannu newydd, mae swyddogion o Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor wedi bod yn llunio dogfennau tendro sy'n ceisio cynnal cymaint o'r gwasanaethau bws presennol â phosibl o fewn y cyllid sydd ar gael. Bydd canlyniad yr ymarfer tendro yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd, a bryd hynny, bydd angen gwneud ceisiadau i arweinwyr rhanbarthol i sicrhau'r cyllid sydd ei angen.

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd S Bradwick**

"O ran y cynllun Tocyn Bws £1, a allwch chi roi gwybodaeth ynghylch cyflwyno'r cynllun?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Roedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi bod y Cyngor ar fin cyflwyno cynllun bws am bris gostyngol pellach ar gyfer mis Rhagfyr. Bydd modd cael tocyn am £1 am bob taith o fewn y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd mai hwn fydd y trydydd cynllun o'i fath mae'r Cyngor wedi'i gyflwyno yn RhCT yn ystod y flwyddyn galendr hon, a hynny drwy benderfyniadau'r Cabinet. Yn gyntaf, cafwyd cynllun teithio am ddim ym mis Mawrth, ac wedyn y cynllun tocyn bws am £1 am 6 wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y defnyddwyr a theithiau ar fysiau yn ystod y cyfnodau yma.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y cynllun wedi'i gefnogi gan gyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac y bydd o gymorth mawr i drigolion gyda'r argyfwng costau byw, ac yn cefnogi'r ôl troed carbon. Bydd hefyd yn lleddfu rhywfaint o'r traffig ar y ffyrdd ym mis Rhagfyr yn ystod prysurdeb y Nadolig.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio y bydd y Cyngor yn gallu parhau â'r cynllun yn y dyfodol ac y bydd y cynllun yn cael ei werthuso ar ôl y Nadolig.

**6. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Barton i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*"Yng ngoleuni'r argyfwng Costau Byw parhaus, pa gymorth sydd ar gael i drigolion RhCT wrth i ni agosáu at fisoedd y gaeaf gyda'r tywydd yn troi'n llawer oerach dros y dyddiau diwethaf?"*

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd, yn ogystal â'r cynllun Tocyn Bws am £1, a fydd yn sicr yn cefnogi llawer o deuluoedd a'r economi leol, ym mis Medi, cytunodd Cabinet y Cyngor ar Gynllun Cymorth Costau Byw newydd ar gyfer 2023. Mae hwn werth £4.292 miliwn, sy'n uwch nag unrhyw gynllun gan Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Mae'r pecyn yn cynnwys taliad untro o £125 i bob cartref yn RhCT sydd â phlentyn/plant o oedran ysgol gorfodol (fesul teulu, nid fesul plentyn). Ychwanegodd fod 18,819 o'r 20,235 o aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer y taliad wedi'u talu hyd yma, sy'n cyfateb i 93%. Anogodd y teuluoedd hynny sydd ddim wedi gwneud hynny eisoes i wneud cais am y cynllun, sy'n parhau ar agor tan 31 Rhagfyr 2023. Bydd swyddogion yn anfon llythyrau dilynol i unrhyw deuluoedd sydd ddim wedi gwneud cais eto yn y cyfamser.
Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet hefyd wedi cymeradwyo £245,000 i'w

ddyfarnu i sefydliadau cymunedol lleol ei ddefnyddio i ddarparu cefnogaeth sylweddol i drigolion RhCT. Mae hyn yn cynnwys y Grant Cyfleusterau Cymunedol (£135,000) sy'n cefnogi grwpiau trydydd sector i gynnal hybiau cymunedol. Ar gyfer y Canolfannau Croeso yn y Gaeaf, mae grantiau o £110,000 o gyllid y Cyngor ei hun wedi'u darparu, gyda 86 o Ganolfannau Croeso yn y Gaeaf wedi cofrestru ar gyfer y cymorth yma. Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau bod holl Lyfrgelloedd y Cyngor yn cael eu hystyried yn Ganolfannau Croeso yn y Gaeaf.
Dywedodd yr Arweinydd, o ran cefnogaeth uniongyrchol i drigolion sy'n wynebu caledi ariannol yn ystod misoedd y Gaeaf, bod tri gwasanaeth cefnogi trigolion o fewn y Cyngor wedi cael mynediad at dalebau Archfarchnad a Thanwydd y gellir eu rhoi i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, a hynny am gyfanswm o £100,000. Mae £100,000 ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer dyfarniadau tai dewisol i gefnogi trigolion i gynnal eu tenantiaeth a'u hatal rhag wynebu cael eu troi allan a chaledi. Dywedodd yr Arweinydd y bydd y Gaeaf yn adeg heriol i lawer o deuluoedd.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd J Barton:**

"A yw'r Arweinydd mor ddig a thrist â minnau ein bod ni fel un o wledydd cyfoethocaf y Byd yn gorfod helpu'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas, tra'n wynebu toriadau ein hunain ar yr un pryd?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Cytunodd yr Arweinydd â theimladau'r Cynghorydd Barton a mynegodd ei siom o orfod darparu cymorth ariannol i'r Banciau Bwyd lleol er mwyn gallu cyflawni gwaith pwysig iawn, y mae mawr ei angen, ar gyfer cymunedau RhCT. Roedd yr Arweinydd yn gobeithio y byddai'n gweld diwedd ar Fanciau Bwyd yn RhCT yn y dyfodol ond byddai'n eu cefnogi'n llwyr tra bod eu hangen nhw.

**Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach oherwydd bod yr amser a neilltuwyd wedi dod i ben.**

## 72 Rhaglen Waith y Cyngor 2023-24 ac Adroddiad Gwybodaeth

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu nad oedd unrhyw newidiadau i raglen waith y Cyngor ar gyfer y cyfnod a chadarnhaodd, oherwydd yr amserlenni yn ymwneud â symud swyddfa o Gwm Clydach i Lys Cadwyn ym Mhontypridd, y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar 17 Ionawr 2024 yn cael ei gynnal ar-lein.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiben yr adroddiad gwybodaeth amgaeedig a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 29 Mawrth 2023, a gynigiwyd gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan ac a eiliwyd gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Evans mewn perthynas â Thlodi Plant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Rhybudd o Gynnig wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, sy'n disgwyl derbyn adroddiad mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol yn rhan o'i gylchred nesaf o gyfarfodydd.

## 73 Datganiad o Gyfrifon ac Adroddiadau Archwilio ar gyfer CBS Rhondda Cynon Taf a Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf 2022/23

Cyflwynodd Mr M Jones, Archwilio Cymru Adroddiad Archwilio Cymru ar Archwiliad o Gyfrifon CBS Rhondda Cynon Taf a Grŵp CBS Rhondda Cynon Taf, gan gyfeirio'r Aelodau'n benodol at baragraff 4 a oedd yn nodi lefel perthnasedd eleni o £9.6 miliwn ar gyfer archwiliad cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf eleni, a £9.8 miliwn ar gyfer archwiliad Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Cyfeiriodd Mr Jones at baragraff 9 a dywedodd y bydd Archwilio Cymru yn cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, gan gadarnhau bod yr holl gamddatganiadau yn yr adroddiad wedi'u cywiro gan y rheolwyr (gyda chrynodeb camddatganiadau yn Atodiad 3 yr adroddiad), fel sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 13 ac 14.

Canmolodd Mr Jones effeithlonrwydd y Gwasanaeth Cyllid o fewn Cyngor RhCT a rhoddodd sicrwydd bod y dull archwilio newydd sydd ar waith eleni mor drylwyr ag y bu erioed.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiad yr Archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, y mae RhCT yn awdurdod gweinyddu ar ei chyfer. Cyfeiriodd at y perthnasedd uchel o £42.64 miliwn ar gyfer archwiliad eleni a chanmolodd yr adroddiad cadarnhaol sy'n cynnwys mân gamddatganiadau teipograffyddol a chyflwyniadol yn unig.

(**Nodyn**: Oherwydd yr anawsterau technegol a brofwyd ar yr adeg yma, penderfynodd y Llywydd y byddai'r agenda'n cael ei hystyried allan o drefn ac fel y manylir yn y cofnodion a nodir isod cyn dychwelyd i eitem 6 ar yr Agenda - Datganiad Cyfrifon ac Adroddiadau Archwilio CBSRhCT a Chronfa Bensiwn RhCT - i gytuno ar y penderfyniad).

**74 Penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yr adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am gadarnhad o benderfyniad y Pwyllgor Penodiadau mewn perthynas â phenodi'r ymgeisydd sydd wedi'i ddewis i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion. Mae hyn yn dilyn y broses benodi yr oedd y Pwyllgor Penodiadau wedi cytuno arni hi ymlaen llaw.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod proses benodi canolfan asesu ddwys yn cael ei chynnal ddydd Iau 16 Tachwedd a dydd Gwener 17 Tachwedd 2023, ac yn dilyn hynny, penderfynodd y Pwyllgor Penodiadau argymell bod Mrs Sian Nowell yn cael ei phenodi i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion.

Cytunodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, y Cynghorydd SJ Davies, fod y broses recriwtio a dethol ffurfiol, wedi penderfynu argymell yn unfrydol y dylid penodi Mrs Sian Nowell i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion.

Roedd Aelodau'n dymuno mynegi eu bod nhw o blaid y penodiad a **PHENDERFYNWYD**:

a) Cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau y dylid penodi Mrs Sian Nowell i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion; a

b) Nodi mai dydd Iau 30 Tachwedd fydd dyddiad cychwyn Mrs. Nowell yn y

swydd hon.

## 75 Datganiad o Gyfrifon ac Adroddiadau Archwilio ar gyfer CBS Rhondda Cynon Taf a Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf 2022/23

(**Nodyn:** Gydag anawsterau technegol wedi'u datrys, dywedodd y Llywydd y byd gwaith o drafod eitem 6 ar yr Agenda - Datganiad o Gyfrifon ac Adroddiadau Arcl ar gyfer CBS Rhondda Cynon Taf a Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf 2022/ ailddechrau).

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Rheng Fl Gyfrifon Cyngor RhCT a'r Gronfa Bensiwn i'w hystyried gan y Cyngor, a chyfeirio gadarnhad a dderbyniwyd yn gynharach yn y cyfarfod gan y Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru, o'r bwriad i gyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y ddau gyfrif wedi'u hystyried yn flaen gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ac ni chodwyd unrhyw faterion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, o ran y sefyllfa alldro a gyflwynwyd yn y cyfr fod hyn yn adlewyrchu'r hyn a gyflwynwyd i'r Cabinet ac i Bwyllgor Trosolwg a Cl Cyngor ym mis Gorffennaf 2023, a bod sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn yn adlewyrc hyn a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023 ochr yn ochr â'r Cy Ariannol Tymor Canolig.

Cadarnhaodd Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru, fod y llythyr cynrychioliadol te awgrymwyd yn nodi'r cyfeiriad cywir at y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r datgani ariannol ar 29 Tachwedd 2023.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor a'r holl Arweinwyr Grwpiau eraill i Archwilio Cymr chydnabod y cydweithio llwyddiannus a'r ymgysylltu rhyngddynt hwy a charfan C Cyngor.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

a) Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda C Taf (Atodiad 1), a'r Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig sy'n cynnwys ymatebion i'r Ymholiadau Archwilio (Atodiad 2).

b) Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Ta (Atodiad 3), a'r Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig sy'n cynnwys ymatebion i'r Llyt Ymholiadau Archwilio (Atodiad 4).

c) Cymeradwyo a nodi safle alldro terfynol y Cyngor, sydd wedi'i archwilio, ar gyf blwyddyn ariannol 2022/23 a lefel y Balansau Cyllid Cyffredinol (paragraff 6.4 o'r adroddiad); a

(d) Nodi ystyriaethau a sylwadau cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Medi 2023 fel sy'n ofynnol gan y Mesur Llywodraeth Leol (adran 9).

(**Nodwch:** Cafodd dau ddatganiad personol yn ymwneud â'r eitem agenda eu cy gan y Cynghorwyr K Johnson a J Brencher (Cofnod Rhif 67 (eitemau viii a ix)).

## 76 Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2023-24

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Trysorlys, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen wybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod chwe mis cyntaf 2022/23, yn ogystal â Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer yr un cyfnod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn erbyn cefndir economaidd heriol o dwf cymharol isel, cyfraddau uwch o chwyddiant a chyfraddau llog uwch, fod y Cyngor wedi cynnal ei sefyllfa o dan-fenthyca a ddangosir gan y sefyllfa fenthyca gros o gymharu â'r gofyniad cyllid cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynrychioli angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Dywedodd y Cyfarwyddwr ymhellach fod y gofyniad benthyca wedi cynyddu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol wrth i gymeradwyaethau pellach gael eu derbyn mewn perthynas â'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Manylir ar hyn yn yr adroddiadau monitro cyflawniad chwarterol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn parhau i weithredu ymhell o fewn ei derfynau, hynny yw, y terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol. Ychwanegodd fod y Cyngor wrthi'n cynnal proses gaffael ar gyfer ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys, a bydd Aelodau'n cael eu diweddaru yn unol â hynny pan fydd y broses wedi'i chwblhau. Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu o fewn yr amlen fenthyca gyffredinol fel y cytunwyd ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif y Cyngor.

I gloi, dywedodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu ymhellach.

Yn dilyn trafodaeth lle atebodd y Cyfarwyddwr Cyfadran nifer o gwestiynau, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

**77 Rhybudd o Gynnig**

Trafod y Rhybuddion o Gynnig isod sydd wedi'u cyflwyno yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 10.1 ac a dderbyniwyd gan y Swyddog Priodol, yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:

1) R. Williams, S. Emanuel, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Ar ôl wythnosau o ddyfalu, mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau o'r diwedd na fydd rhan ogleddol HS2 rhwng Manceinion a Birmingham bellach yn cael ei hadeiladu.

Mae'r cyhoeddiad, sydd i bob golwg wedi bod y gyfrinach waethaf mewn

gwleidyddiaeth, yn dilyn dileu cymal y dwyrain rhwng Birmingham a Leeds, a’r llinell gyflym rhwng y dwyrain a’r gorllewin rhwng Leeds a Manceinion yn 2021.

Roedd dynodiad gwreiddiol HS2 fel prosiect Cymru a Lloegr yn ysgytwol ynddo’i hun’ gyda’r prosiect rheilffordd cyflym agosaf wedi’i leoli bron i 70 milltir i ffwrdd o ffin Cymru, a’r cyfiawnhad dros y dosbarthiad oedd y byddai teithwyr yng Ngogledd Cymru yn ôl pob sôn yn cael budd o'r gyfnewidfa arfaethedig ar gyfer Crewe.

Dros y degawd diwethaf, mae anghydraddoldebau Fformiwla Barnett a phenderfyniadau’r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan wedi gweld Cymru’n cael ei hamddifadu o bron i hanner biliwn o bunnoedd o fuddsoddiad trafnidiaeth (yn seiliedig ar gyllid rheilffyrdd tebyg am debyg fesul pen o’r boblogaeth o gymharu â rhannau eraill o'r DU).

Gyda’r prosiect HS2 yn cael ei ddileu a “biliynau o bunnoedd bellach wedi’u harbed” mae’n gwbl deg a chyfiawn fod Cymru’n elwa ar gyfran deg o fuddsoddiad.

Mae’r cyhoeddiad y byddai £1 biliwn yn cael ei ddyrannu i drydaneiddio prif reilffordd Gogledd Cymru yn ddim mwy na ffigur amcangyfrifol ac, yn ôl Llywodraeth Cymru, fe fydd yn cymryd o leiaf 10 mlynedd.

Mae’r Prif Weinidog eisoes wedi datgan y bydd pob rhanbarth y tu allan i Lundain yn derbyn yr un buddsoddiad gan y llywodraeth neu fwy nag y bydden nhw wedi’i wneud o dan HS2, a gyda chanlyniadau cyflymach.

Rhaid i’r ymrwymiad hwn fod yn berthnasol i Gymru a chael ei gyflawni ar raddfa sy’n adlewyrchu anghenion Cymru wrth geisio mynd i’r afael â’r tanariannu o ran trafnidiaeth rheilffyrdd dros y degawd diwethaf. Rhaid iddo hefyd ganiatáu i brosiectau trafnidiaeth pwysig eraill ledled Cymru gael eu hariannu hefyd.

Felly mae'r Cyngor hwn yn:

- Bod canslo HS2 yn rhoi cyfle i Gymru gael cyfran deg o gyllid ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth rheilffyrdd.

- Bod angen adolygu fformiwla Barnett ar fyrder i atal achosion o brosiectau rhag cael eu dosbarthu’n anghywir yn y dyfodol er mwyn osgoi darparu cyllid i’r gwledydd datganoledig.

- Bod yn rhaid i Lywodraeth San Steffan yn awr wneud yn iawn am ei hymrwymiad i ddarparu trefniadau ariannu teg i “bob rhanbarth y tu allan i Lundain” gyda’r arian “wedi’i arbed” o HS2.

Bod y Cyngor hwn:

- Yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at y Prif Weinidog, yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Changhellor y Trysorlys i gyfleu’r Cynnig hwn.

- Gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyflwyno sylwadau fel “llais Cymru gyfan” i amlinellu’r achos bod yn rhaid i Gymru dderbyn swm teg a chymesur o gyllid o ganslo HS2.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

*******************************************************************************************

Ystyried y Rhybuddion o Gynnig isod sydd wedi'u cyflwyno yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 10.1 ac a dderbyniwyd gan y Swyddog Priodol, yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:

W Lewis, R. Davis, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, S. Emanuel, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Mae'r Cyngor yn nodi bod yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd wedi dod i gasgliad bod camweinyddu wedi digwydd ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â methiannau yn y ffordd yr oedd yn cyfleu newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fenywod a aned yn y 1950au.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod yr Ombwdsmon yn bwriadu anfon Adroddiadau Cyfnod 2 a Cham 3 dros dro yn ymdrin â'r anghyfiawnder a achoswyd gan y camweinyddu, a'r rhwymedïau, i'r tua 500 o fenywod y cyrhaeddodd eu hachosion yr Ombwdsmon cyn iddo roi'r gorau i dderbyn cwynion. Byddant hwy, a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn cael eu gwahodd i wneud sylwadau erbyn y dyddiad cau disgwyliedig, sef 21 Rhagfyr. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hystyried gan yr Ombwdsmon sy'n gobeithio cyhoeddi adroddiad terfynol rywbryd yn y flwyddyn newydd. Yna caiff ei roi gerbron y Senedd.

Mae'r Cyngor yn cefnogi gweithredoedd Ymgyrch Menywod yn Erbyn Anghyfiawnder Pensiwn y Wladwriaeth (WASPI) i sicrhau cyfiawnder i'r 3.8 miliwn o fenywod yr effeithir arnynt, gan gynnwys y 12,800 sy'n byw yn etholaethau Rhondda, Cynon a Thaf.

Mae'r Cyngor yn nodi bod Prif Weinidog y DU wedi dweud y bydd y Llywodraeth yn ymateb yn briodol i unrhyw argymhellion ac yn galw ar y Llywodraeth i ymrwymo i weithredu iawndal priodol yn llawn, yn deg ac yn gyflym.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**